
ASTUDIAETH ACHOS
SUT MAE GWAHANOL ARDALOEDD YN CAEL EU HADFYWIO?

Defnyddiwyd y gweithgaredd ar Tirlun gan ddysgwyr Blwyddyn 6 fel sail i archwilio eu diddordeb yn hanes yr ysgol ac ardal Bae Caerdydd. Penderfynodd y dysgwyr siarad â ffrindiau a theulu, cysylltu â'r cyngor ac ymchwilio ar y rhyngrwyd. Buont hefyd yn chwilio am gliwiau ar yr adeilad ac ar dir yr ysgol.

Daeth y dysgwyr o hyd i luniau o adeilad yr hen ysgol a gwybodaeth am hanes yr Ysgolion Bwrdd a adeiladwyd yn y 1870au ac Ysgolion Eglwysig yr ardal. Fe ddysgon nhw hefyd am Betty Campbell, y brifathrawes ddu gyntaf yng Nghymru, a oedd yn brifathrawes Ysgol Gynradd Mount Stuart pan yr agorodd yr ysgol ym 1973. Fe wnaeth y dysgwyr fynd i weld y cerflun coffa ohoni yng nghanol Caerdydd.


ENTRANCE TO THE BUTE DOCKS, CARDIFF.

Gwnaed defnydd o'r canfyddiadau am hanes yr ysgol i greu postiad ar wefan yr ysgol. Fodd bynnag, trwy siarad â phobl leol, darganfu dysgwyr gymaint mwy am sut mae'r ardal wedi newid yn ddiweddar.

Er enghraifft, fe wnaeth y dysgwyr ddarganfod y wybodaeth ganlynol:

- Ystyrir Bae Caerdydd yn un o'r prosiectau adfywio mwyaf llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig.
- Datblygwyd eiddo yn Tiger Bay a'r Dociau yn dai newydd ar ôl yr Ail Ryfel Byd.
- Adeiladwyd siopau newydd a chanolfan iechyd fodern hefyd, ond roedd gofid mawr ynghylch chwalu'r gymuned leol.
- Roedd ailddatblygiad y Dociau yn cynnwys dymchwel tai, tafarndai, siopau a busnesau ac yna adeiladu tai cyngor ac ysgol newydd, sef Ysgol Gynradd Mount Stuart.
- Arweiniodd datblygiad Bae Caerdydd at siopau, bariau a bwytai, sef Bae Caerdydd fel ag y mae heddiw.
- Agorwyd Canolfan ac ardal hamdden a siopa Cei'r Fôr-forwyn (Mermaid Quay) ar safle Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru ym 1999.



Fe wnaethom annog grwpiau o ddysgwyr i ymchwilio i agwedd ar adfywio a oedd o ddiddordeb iddynt, gan edrych ar pam y digwyddodd y newidiadau, a oedd y newidiadau hyn wedi gwella'r ardal a sut yr effeithiwyd ar bobl leol. Fe ddangoson nhw eu syniadau i'r dosbarth ar ffurf cyflwyniad digidol.

Arsylwodd yr athrawon ar y prosesau a ddilynodd y dysgwyr yn ystod yr ymchwiliadau hyn. Bu modd i'r athrawon gasglu tystiolaeth o ddysgwyr yn archwilio elfennau o ddatganiadau PS3 a PS4 o fewn yr agwedd 'Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.' ym Maes Y Dyniaethau.

Nid oedd athrawon yn bwriadu defnyddio Tasg 2 o'r gweithgaredd, ond roedd llawer o'r hyn a ddarganfuwyd gan ddysgwyr yn Nhasg 1 yn gorgyffwrdd â Thasg 2. Er enghraifft, archwiliodd un grŵp i dwf a dirywiad y Dociau trwy eu cysylltiad â mwyngloddio ac allforion. Fe wnaethant greu llinell amser oedd yn dangos allforio glo am y tro cyntaf ym 1816, allforion glo yn cyrraedd uchafbwynt o 10.7m tunnell ym 1913, y dirywiad o'r 1920au ymlaen ac allforio glo am y tro olaf olaf ym 1964. Roedd y dysgwyr yn ei chael hi'n anodd credu'r ffaith mai Caerdydd oedd y porthladd oedd yn allforio'r swm mwyaf o lo ledled y byd tan ddechrau'r 20fed ganrif.

Ni ddefnyddiodd yr athrawon Dasg 3, ond roeddent yn awyddus i gynnwys dysgwyr yn dod o hyd i fan yn eu hardal leol y gellid ei ddatblygu a'i adfywio. Darparodd Tasg 4 y gefnogaeth berffaith i alluogi dysgwyr i ymgysylltu â hyn. Mae hon yn dasg helaeth sy'n cynnwys awgrymiadau i archwilio'r broses gyfan, gan ddechrau gyda chanfod man addas ar gyfer ei adfywio ac ymlaen i greu bwrdd stori o'r syniadau, ymgysylltu ag arbenigwyr a chyflwyno syniadau. Ar hyn o bryd, mae pob grŵp wedi nodi man posibl ar gyfer ei adfywio ac yn ymgysylltu â'r broses a amlinellwyd yn y dasg. Mae athrawon yn awyddus i alluogi'r dysgwyr i gwblhau'r dasg hon ac maent yn hapus i glustnodi cyfnod o ddwy awr bob wythnos iddynt yn ystod y ddau dymor nesaf, er mwyn iddynt allu cwblhau'r dasg.